

# Public Document Pack

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich  
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please  
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

### **PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1**

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 1 yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB ar **Dydd Llun, 12 Mawrth 2018 am 09:30.**

### **AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb  
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant  
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 16  
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 10/01/2018 a 18/01/2018.
4. Diweddariad ar Raglen Waith 17 - 38
5. Moderneiddio Ysgolion 39 - 48  
**Geahoddedigion**

Lindsay Harvey, Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro)  
Cllr Charles Smith, Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio  
Cllr H Williams, Dirprwy Arweinydd  
Nicola Echanis, Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar  
Gaynor Thomas, Rheolwr Rhaglen Ysgolion

6. Materion Brys  
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwidi testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Yn ddiffuant

**P A Jolley**

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethol

**Dosbarthiad:**

Cynghowrwyr

JPD Blundell

NA Burnett

RJ Collins

SK Dendy

DK Edwards

Cynghorwyr

J Gebbie

RM Granville

M Jones

DG Owen

Cynghorwyr

JC Radcliffe

B Sedgebeer

JH Tildesley MBE

LM Walters

CA Webster

A Williams

AJ Williams

Cynrychiolwyr Cofrestredig

Tim Cahalane

William Bond

Rev Canon E J Evans

Ciaron Jackson

K Pascoe

# Agenda Item 3

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD MERCHER, 10 IONAWR 2018

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWIYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 10 IONAWR 2018, AM 09:30

## Presennol

Y Cynghorydd CA Webster – Cadeirydd

JPD Blundell  
J Gebbie  
LM Walters

NA Burnett  
M Jones  
AJ Williams

RJ Collins  
JC Radcliffe

DK Edwards  
B Sedgebeer

## Cynrychiolwyr Cofrestredig

Tim Cahalane  
: Rev Canon E J Evans  
William Bond  
Kevin Pascoe

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cairon Jackson  
Councillor Jefferson Tildesley  
Councillor Alex Williams  
Nicola Echanis

## Swyddogion:

John Fabes	Swyddog Arbenigol: Addysg Ôl-16 a Hyfforddiant
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro)
Rachel Keepins	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu
Mandy Paish	Uwch Ymgynghorydd Her, Consortiwm Canolbarth y De

## 23. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaethpwyd y datganiadau buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitem 5 ar yr Agenda: -

Y Cynghorydd N Burnett - Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Brynteg  
Y Cynghorydd C Webster - Mae ganddo blentyn sy'n astudio yn Ysgol Gyfun Brynteg  
Y Parchedig Canon Evans - Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Brynteg  
Tim Cahalane - Aelod o Gonsortiwm Canolog y De  
Kevin Pascoe - Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun yr Archesgob McGrath, ac Aelod o Gonsortiwm Canolog y De  
Y Cynghorydd JP Blundell - Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Bryntirion.

## 24. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bynciau 1, dyddiedig 4 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.

25. DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth adroddiad gyda'r diben canlynol: cyflwyno'r eitemau a flaenoriaethwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol; cyflwyno rhestr o eitemau posib pellach i'r Pwyllgor roi sylwadau arnynt a'u blaenoriaethu, ac yn olaf gofyn i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried gan ddefnyddio'r ffurflen meini prawf a bennwyd ymlaen llaw.

Ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad oedd y Flaenaglen Waith gyffredinol ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bynciau, a oedd yn cynnwys y pynciau a flaenoriaethwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar gyfer y set nesaf o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bynciau yn Nhabl A, yn ogystal â rhestr o bynciau a ystyrid yn bwysig ar gyfer blaenoriaethu yn y dyfodol yn Nhabl B.

Dywedodd y Swyddog Craffu, pe bai Aelodau'n gofyn am ystyried unrhyw eitemau pellach fel rhan o'r Flaenaglen Waith, yna gellid anfon y rhain at yr Uned Craffu trwy e-bost y tu allan i'r cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau i dderbyn yr eitemau fel y nodwyd yn atodiadau'r adroddiad, yn amodol ar y canlynol: -

1. Blaenoriaethu'r eitem y rhoddir manylion amdani ar dudalen 19 yr adroddiad, hy Effeithiau Cyllidebol Carchar y Parc.
2. Gwahodd cynrychiolydd o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod sy'n ystyried pwnc Tai Argyfwng.
3. Bod ymweliad safle yn cael ei drefnu i Goleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yng Nghaerdydd

PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi'r adroddiad, yn amodol ar bwyntiau 1 i 3. uchod.

26. ADOLYGIAD STRATEGOL AR YSGOLION DROS CYNGOR BWRDEISDREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Croesawodd y Cadeirydd y Gwahoddedigion i'r cyfarfod a rhoddodd y Swyddog Arbenigol : Addysg a Hyfforddiant ôl 16 gyflwyniad i'r adroddiad am yr uchod, ac yna gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau oddi wrth yr Aelodau.

Dywedodd un Aelod, er bod y cyflwyniad i'r adroddiad a roddwyd gan y Swyddog uchod wedi esbonio'n eithaf sylweddol yr hyn y byddai'r Adolygiad yn ei olygu, teimlai fod yr adroddiad yn brin o fanylion ynghylch beth roedd y Swyddogion am i'r Pwyllgor ei wneud, hy pa fewnbwn i'w gael o'r broses Trosolwg a Chraffu, ac yn fwy arbennig beth i graffu arno.

Cyfeiriodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y rhai a oedd yn bresennol at Atodiadau'r adroddiad. Roedd y rhain yn rhoi manylion am yr adroddiad terfynol mewn perthynas ag Adroddiad Terfynol y Bwrdd Gweithredol Ôl-16 a chynigion ar gyfer y dyfodol. Ychwanegodd fod y dogfennau hyn wedi'u hystyried yn flaenrol gan y Bwrdd Adolygu Statudol Ôl-16 fel rhan o Gam 1 yr adolygiad. Roedd Cam 2 bellach ar y gweill a byddai gwybodaeth a dogfennau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ar 15 Ionawr 2018. Ychwanegodd y byddai'r ddogfen fyddai'n rhoi cychwyn ar brosiect newydd, y cylch gorchwyl a cherrig milltir y prosiect ar gael ar ôl y dyddiad hwn. Ystyriwyd adroddiad blaenrol ar y pwnc hwn gan y Cabinet, cyn iddo gael ei ystyried heddiw gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Ond ychwanegodd, na fyddai cynigion yn y dyfodol ynghylch Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn mynd allan yn ffurfiol i ymgynghori nes bod adroddiad pellach ar gamau nesaf y broses yn cael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2018. Ar hyn o bryd, roedd data priodol yn cael ei gasglu i'w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y byddai'n cynorthwyo'r Cabinet yn eu trafodaethau yn y dyfodol ar y mater hwn, pe bai Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi sylw arbennig i baragraffau 4.5, 4.6, 4.7 a 4.8 yr adroddiad, gan mai dyma'r opsiynau sydd ar gael i'r awdurdod addysg lleol a fyddai'n rhan o Strategaeth Opsiynau yn y dyfodol. Hysbysodd yr Aelodau fod y Cabinet i fod i ymweld â Champws Pencoed y dydd Gwener yma. Yn dilyn hyn byddai ymweliadau'n cael eu gwneud i ysgolion eraill, gan gynnwys y rhai a oedd yn cynnig darpariaethau arbennig, er mwyn rhannu opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 at y gwahanol gyfnodau gwaith a gyflawnwyd, a chafodd canlyniadau'r rhain eu nodi yn y wybodaeth ategol a gynhwysir yn yr Atodiadau i'r adroddiad. Roedd amryw elfennau o'r rhain wedi cael eu sgorio, ac roedd manylion yn cael eu dangos hefyd yng ngwybodaeth ategol yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, fod y Bwrdd ôl-16 fel rhan o'i drafodaethau wedi adolygu ystod o gysyniadau ar gyfer dyfodol darpariaethau ôl-16 ar draws CBSC, a oedd yn cynnwys: -

- Cadw'r status quo;
- Cyfuno dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion i ffurfio canolfan chweched dosbarth BCBC, neu ddatblygu coleg chweched dosbarth annibynnol newydd, neu ddatblygu un neu fwy o ganolfannau chweched dosbarth fel rhan o'r coleg Addysg Bellach
- Model cymysg gyda rhai dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael eu cadw, ac eraill yn cael eu huno yn unol â'r tri model a ddisgrifir uchod, neu
- Model trydyddol llawn.

Gofynnodd un Aelod a ellid rhannu unrhyw ddata ynghylch canran yr ysgolion o fewn y Fwrdeistref Sirol a oedd o dan eu capasiti o ran niferoedd disgyblion, nid yn unig ar gyfer oedran 16+ ond ar gyfer pob oedran yn yr ysgolion.

Dywedodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y byddai gwybodaeth fel hyn a thwf amcangyfrifedig disgyblion yn yr ysgolion yn y dyfodol, yn rhan o Gam 2 y Fenter hon, a byddai'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar gyfer ei gyfarfod ym mis Ebrill. Byddai data arall yn cael ei ystyried hefyd, megis demograffeg a rhai cysyniadau daearyddol. Byddai trefniadau cyllido grantiau ar gyfer disgyblion cyn 16 ac ôl-16, hefyd yn destun rhai newidiadau ychwanegodd. Ni fyddai unrhyw newid sylweddol i'r cyfnod cyn 16 oed, ond byddai'r cyfnod ar ôl 16 yn cael ei ariannu i raddau helaeth trwy Lywodraeth Cymru a byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu i wahanol ysgolion yn deg, hy yn seiliedig ar faint ysgolion a nifer y disgyblion ar y gofrestr, ac ati.

Gofynnodd yr Aelod gwestiwn dilynol, sef a fyddai'r cynigion ôl-16 yn y dyfodol yn arwain at ddosbarthiadau gwag mewn rhai ysgolion.

Dywedodd y Swyddog Arbenigol: Ôl-16 ac Addysg a Hyfforddiant fod data fel hyn yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd, a dylai'r canlyniadau fod yn hysbys erbyn diwedd mis Chwefror.

Dyweddodd Cynrychiolydd Cofrestredig na fu ymgynghori eto ynghylch cynigion yr adroddiad gydag Archesgobaeth Gatholig Caerdydd, a gofynnodd a fyddai hyn yn digwydd, ac os felly pryd.

Dyweddodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 fod trafodaethau anffurfiol wedi'u cynnal gyda'r uchod, a bwriedir cynnal ymgynghoriadau pellach gyda'r Ysgolion Ffydd maes o law wrth i faterion ddatblygu.

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Cofrestredig at drefniadau llywodraethu a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer unrhyw fodolau posib a gynigir yn y dyfodol, yn arbennig o ran y broses ynghylch derbyniadau ysgol. Nododd fod Coleg Pen-y-bont ar Ogwr yn edrych ar y derbyniadau fel rhan o'u protocolau addysgol pellach, a bod dosbarthiadau 6ed dosbarth yn bwriadu edrych ar gyflwyno eu polisi derbyn eu hunain. Ond pe baent yn cyflwyno hyn, byddent yn torri'r Cod Ymarfer Derbyniadau Ysgol.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Addysg a Chymorth Teuluol wrth yr Aelod y byddai'n edrych ar y mater hwn ac yn rhoi ateb iddo y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd Aelod a oedd y cynigion mewn perthynas â dyfodol darpariaeth ôl-16 yn y Fwrdeistref Sirol yn cael cefnogaeth yr amrywiol gyrrff Llywodraethu Ysgolion.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd cymorth llywodraethu a threfniadau eraill wedi cael eu hystyried gan ei bod yn rhy gynnar i hyn ddigwydd. Cyn gynted ag yr oedd yr Awdurdod wedi penderfynu ar gynigion cadarnach ynghylch y llwybr y byddai'n ei gymryd mewn perthynas ag addysg Ôl-16, byddai hyn yn cael ei ystyried yn fanwl fel rhan o'r cynigion cyffredinol, esboniodd.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 4.5.3 yr adroddiad, a nododd mai un o'r cynigion i'w hystyried mewn perthynas â darpariaeth ôl-16 yn y dyfodol, yw model cymysg gyda rhai dosbarthiadau chweched ysgol yn cael eu cadw ac eraill yn cael eu huno yn unol â'r tri model arall a ddisgrifiwyd ym mharagraff(au) 5 yr adroddiad. Gofynnodd hi a oedd hyn yn golygu na fyddai rhai dosbarthiadau 6ed dosbarth yn uno i ffurfio Colegau Addysg Bellach.

Cadarnhaodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y byddai hyn hefyd yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r ymarfer ymgynghori. Byddai'r canlyniadau yn cael eu cynnwys fel rhan o'r opsiynau ymarferol a fydd yn rhan o'r adroddiad i'r Cabinet.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, ei fod o'r farn, fel ei gyd-Aelodau Cabinet, fod yna werth mewn sicrhau bod pob ysgol yn darparu ar gyfer myfyrwyr 11-18 oed, ac roedd rhai rhesymau dros hyn fel y dangosir yn y tabl ar dudalen 26 yr adroddiad, a fyddai'n cynnwys gwell trefniadau addysgu.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg a Chymorth Teuluol bwysleisio'r ffaith y byddai cynigion fydd yn cael eu cyflwyno, yn llawer mwy eglur o ran yr hyn a fyddai'n cael ei gyflwyno yn y pen draw, ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ac wedi i farn yr holl ymgynghoreion perthnasol gael ei chasglu. Byddai hyn hefyd, ychwanegodd, yn cael ei rannu unwaith eto gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, maes o law.

Dyweddodd Cynrychiolydd Cofrestredig fod ganddo rywfaint o bryderon ynghylch recriwtio a chadw staff ar gyfer unrhyw newidiadau sy'n digwydd lle byddai ysgolion yn addysgu disgyblion oedran 11 - 18 oed. Roedd yn ymwybodol o brofiad blaenorol ei bod eisoes yn anodd recriwtio athrawon gydag arbenigedd mewn addysgu pynciau megis Gwyddoniaeth a Mathemateg. Teimlai y byddai ysgolion heb addysg chweched dosbarth

yn cael trafferth yn yr ardal hon, ac felly roedd o'r farn y dylai rhai ysgolion uwchradd gadw addysg 6ed dosbarth.

Dyweddodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y byddai hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.

Nododd Aelod ei fod yn sylweddoli bod yna ateb "un maint addas i bawb" wrth ystyried yr holl gynigion posibl ar gyfer newid, a bod angen ystyried materion fel demograffeg gwahanol ardaloedd sy'n ffurfio Wardiau fel rhan o unrhyw newidiadau. Teimlai ei bod bob amser yn angenrheidiol cynyddu dyheadau plant, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, yn enwedig ar gyfer plant / teuluoedd a oedd yn byw yn ardaloedd mwy difreintiedig y Fwrdeistref Sirol, ac i'r plant hynny a oedd yn anffodus ag anghenion dysgu, ac i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i wneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd y maent yn gyfarwydd â bod ynndi. Ychwanegodd yn olaf y byddai angen edrych yn ofalus ar drefniadau/costau trafndiaeth ynghyd â newidiadau a gyflwynir ar gyfer addysg ôl-16, ac o bosibl delerau ac amodau staff,

Sylwodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gyfeiriad yn yr adroddiad at y Bil ADY, a darpariaeth a oedd yn caniatáu ymestyn addysg i bobl ifanc hyd at 25 oed.

Cadarnhaodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y byddai cynigion addysg ôl-16 pan fyddent wedi cael eu cwblhau a'u gweithredu, yn cefnogi plant ADY a'u hanghenion unigol.

Ailadroddodd Aelod y dylid cofio'n ofalus am iechyd meddwl myfyrwyr ifanc wrth ystyried unrhyw newidiadau mewn addysg ôl-16.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod lles disgyblion a staff yr ysgolion yn hanfodol, a bod yr Adran Addysg wedi bod yn cysylltu â phartneriaid cyhoeddus allweddol ynghylch y sefyllfa gyffredinol. Ychwanegodd y byddai materion cludiant hefyd yn cael eu hystyried yn ofalus, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru ynghylch disgyblion yn trosglwyddo ysgolion, ac ati.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio nad oedd gan tua 50% o'r myfyrwyr lawer o opsiynau i'w hystyried wrth gael eu haddysgu mewn ysgolion, ac felly byddai rhai o'r newidiadau i'r Chweched Dosbarth a gynigir yn ymdrin â'r mater hwn. Teimlai y dylai fod gan bob ysgol, er enghraifft, fwy o gydraddoldeb o ran y dewisiadau sydd ar gael ar gyfer cyfleoedd dysgu galwedigaethol ac academaidd.

Ychwanegodd y Swyddog Arbenigol: Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 mai'r bwriad o hyd yn y dyfodol fyddai dilyn cymwysterau galwedigaethol mewn coleg AB, gan fod mwy o arbenigedd i astudio ar gyfer y math hwn o gymhwyster yno nag mewn ysgolion. Fel enghraifft o hyn, roedd safle Campws Pencoed yn ystyried cyflwyno peirianeg a meysydd arbenigedd eraill a oedd yn cefnogi prentisiaethau.

Dyweddodd un Aelod, am resymau parhad, y byddai'n dymuno i'w phlentyn hi barhau â'i haddysg yn yr un ysgol sy'n parhau i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n astudio ar gyfer lefelau Uwch. Roedd hi'n gobeithio y byddai'r modelau arfaethedig yn gwella cyfleoedd addysg ôl-16 i ddysgwyr, ychwanegodd.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, fod recriwtio staff addysgu yn broblem genedlaethol yn ogystal â phroblem i'r Fwrdeistref Sirol, yn enwedig o ran pynciau fel Gwyddoniaeth, Peirianeg a Mathemateg ar gyfer disgyblion oedran ôl-16. Roedd y sefyllfa yn cael ei gwaethygu gan y ffaith bod lai o gyfleoedd hyfforddi athrawon ar hyn o bryd yng Nghymru nag a oedd yn arferol, mater y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei herio. Ychwanegodd hefyd ei bod yn rhaid i

Awdurdodau Addysg edrych am ffyrdd o wella cyfleoedd addysgol mewn ysgolion, o dan y Cod Addysg Ysgolion, ac felly dyna pam y cyflwynir yr adroddiad.

Gwnaeth un Aelod y pwynt fod CBSP yn uchel ei barch o ran ei safonau darparu addysg, a bod angen i'r adolygiad o ddarpariaeth ôl-16 gydbwysu'r hyn a oedd yn ofynnol o safbwynt statudol; beth oedd yr opsiwn a ffafrir gan y Cyngor er mwyn sicrhau gwelliannau, ac a oedd unrhyw gyllid ar gael i gynorthwyo gyda chymorth ariannol tuag at y newidiadau.

Cadarnhaodd Cynrychiolydd Cofrestredig ei fod yn poeni y byddai'r newidiadau yn arwain at ormod o ddisgyblion mewn rhai ysgolion. Gobeithiai y gallai unrhyw newidiadau hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach ar gyfer disgyblion ôl-16, yn ogystal â hyrwyddo meysydd pwnc lleiafrifol eraill, megis y rhai y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.8.3 yr adroddiad, hy trwy ddatblygu cyfleoedd galwedigaethol a chyfleoedd addysg cyfun gyda'i gilydd, yn ogystal â dysgu addysg uwch mwy confensiynol.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio ei fod yn cytuno â'r cynnig hwn.

Teimlai Aelod hefyd ei bod hi'n bwysig cynnal y cyfle i ddarparu darpariaeth chwaraeon / gweithgaredd corfforol mewn ysgolion a /neu leoedd a oedd yn darparu cyfleoedd addysg ar gyfer dysgu ôl 16 oed, ac ar lefelau addysgol uwch, er mwyn i bobl ifanc gynnal eu lles er mwyn gallu cadw cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y gellid ystyried trefnu slot hanner diwrnod rheolaidd ar gyfer gweithgareddau chwaraeon i bobl ifanc sy'n tyfu i fod yn oedolion yn llawn, ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Roedd yr Aelod, wrth werthfawrogi'r holl waith a fyddai'n cael ei gynhyrchu o'r cynigion ôl-16, yn dweud bod angen gofal wrth ystyried trefniadau cludiant ar gyfer disgyblion a fyddai'n symud o un lle Addysg i un arall, yn enwedig wrth ystyried y toriadau i'r gyllideb a wynebwr gan Gyfarwyddiaethau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd, y byddai yna opsiwn o symud staff yn ogystal â'r disgyblion i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau y cytunir arnynt yn nes ymlaen, ac y byddai darpariaeth cludiant digonol yn cael ei hystyried fel rhan annatod o'r hyn a weithredir yn y pen draw.

Teimlai'r Cadeirydd y gellid ystyried cyfuno darparu cludiant ysgol gyda'r hyn a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol lle bynnag y bo modd

Gan fod hyn yn cwblhau'r busnes ar yr eitem hon, diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu, ac ar ôl hynny fe wnaethant adael y cyfarfod.

Casgliadau:

1. Penderfynodd y Pwyllgor er mwyn i'r Cabinet wneud unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ynghylch y cysyniadau arfaethedig ar gyfer addysg Ôl-16 y byddai angen darparu tystiolaeth o fod wedi ystyried yr agweddau canlynol:

a) Y llwybr Llywodraethu ar gyfer unrhyw gynnig yn y dyfodol yn enwedig gan ei bod yn anodd recriwtio Llywodraethwyr newydd ar hyn o bryd. Gofynnodd y Pwyllgor am ddarparu tystiolaeth ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei wneud;

b) Sut mae cynigion yn anelu at godi dyhead y disgyblion hynny o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig;



- c) Sut mae anghenion disgyblion bregus fel y rhai ag ADY, sy'n aml yn ei chael yn anodd ymdopi â newid, yn cael eu diwallu;
- d) Sut y bydd Gofal Bugeiliol yn cael ei sicrhau mewn unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol. Argymhellodd y Pwyllgor y byddai ar fyfyrwyr, pa un ai mewn ysgol neu goleg, angen sylfaen sefydlog ar gyfer parhad academiaidd lle y gallent gael cymorth pe bai ei angen arnynt;
- e) Tystiolaeth o ble mae arferion da wedi cael eu hystyried yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas ag addysg ôl-16;
- f) Sut y caiff e-ddysgu ei ddefnyddio mewn unrhyw rai o'r cynigion;
- g) Sut y gellir hyrwyddo mwy o chwaraeon a'u cynnwys o fewn addysg ôl-16;
- h) A ddylid darparu dysgu galwedigaethol mewn ysgolion yn ogystal â cholegau? Pa dystiolaeth sydd o 'LAS' eraill?
- i) Sut y bydd unrhyw drawsnewid yn cael ei strwythuro a'i reoli;
- j) Sut y bydd costau cludiant yn cael eu talu - yn enwedig y goblygiadau gwahanol o ran cludiant yn dibynnu a fyddai addysg ôl-16 trwy goleg Addysg Bellach a gynhelir neu drwy chweched dosbarth mewn ysgol;

2. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell bod yr Awdurdod Lleol yn cadw rheolaeth o'r broses dderbyniadau i sicrhau ei bod yn parhau i gael ei chyflawni yn unol â'r cod.

3. Pwysleisiodd yr Aelodau y pwynt a drafodwyd yn ystod y cyfarfod; nad oedd un maint o reidrwydd yn gweddu i bawb, ond teimlai'r Pwyllgor mai'r safiad gwleidyddol oedd y dylai pob ysgol gynnal darpariaeth 11-18. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i wrando ar y gymuned a'r arbenigwyr yn enwedig ar ôl yr ymgynghori.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gofynnodd y Pwyllgor am gael derbyn data am ysgolion yn y fwrdeistref sirol sydd o dan eu capasiti o ran niferoedd.

## 27. PANEL CRAFFU AELODAU A THROSOLWG YMGYSYLLTU YSGOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu adroddiad oedd yn cyflwyno i'r Pwyllgor y canfyddiadau a'r argymhellion o gyfarfod Panel Ymgysylltu Aelodau ac Ysgolion (MSEP) gydag Ysgol Maesteg.

Rhoddodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndirol, gan dynnu sylw at y ffaith bod perfformiad yr ysgolion wedi bod o dan y chwyddwydr yn ddiweddar, yn enwedig o ran dangosydd trothwy cyfun Saesneg a Mathemateg. Roedd hyn o bosib wedi ei gymhlethu gan y ffaith bod yna hefyd nifer o newidiadau y bu'n rhaid i bob ysgol eu cyflwyno dros y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, a allai fod wedi effeithio ar berfformiad eleni ymhob ysgol, gan gynnwys Maesteg, a chafodd y rhain eu hamlinellu yn fanylach yn yr adroddiad.

Yna nododd yr adroddiad fod ymholiad ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a Chonsortium Canolog y De mewn perthynas ag Ysgol Maesteg wedi'i gynnal gyda'r ysgol ym mis Mai 2017. Roedd rhai argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer yr ysgol er mwyn iddi wella perfformiad, a ddangosir ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 3.5 yr adroddiad. Roedd

adolygiad o berfformiad yr ysgol wedi nodi bod yr ysgol wedi gwneud dechrau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

O ran y datblygiadau diweddaraf yn yr ysgol, ac er mwyn mesur y gwelliannau a wnaed yno ymhellach, cyfarfu'r Panel Ymgysylltu Aelodau ac Ysgolion â'r Prifathro a Chadeirydd y Llywodraethwyr, ynghyd â Swyddogion o'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd ym mis Tachwedd 2017.

Yn dilyn hyn, tynnodd y Panel sylw at gyfres o bwyntiau allweddol ac argymhellion, a thynnwyd sylw at y rhain ar ffurf pwyntiau bwled, yn adran gyntaf paragraff 4.1 yr adroddiad. Hefyd, tynnodd y Panel sylw at rai pwyntiau pellach, o ran y dulliau allweddol yr oedd yr ysgol wedi eu nodi ar gyfer gwelliant yn ogystal â rhai meysydd posibl ar gyfer rhannu arferion gorau gydag eraill.

Yna, roedd paragraff 4.2 yr adroddiad yn cynnig tri argymhelliad a gyflwynodd y Panel hefyd yn y cyfarfod neu ar ôl y cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd y byddai'n gweithredu'n briodol ar yr argymhellion a gyflwynwyd, ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu gweithredu. Ychwanegodd y byddai hefyd yn trefnu bod y gwelliannau hyn yn cael eu monitro yn unol â hynny.

Cefnogodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y sylwadau a wnaed gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

ARGYMHELLWYD:       Bod y Pwyllgor yn:

- (1) Derbyn sylwadau ac argymhellion y Panel Ymgysylltu ag Aelodau ac Ysgolion mewn perthynas ag Ysgol Maesteg.
- (2) Anfon y sylwadau a'r argymhellion at y Cabinet, y Gyfarwyddiaeth a'r Consortiwm ar gyfer unrhyw ymateb addas.

28. MATERION BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40

Presennol

Y Cyngorydd CA Webster – Cadeirydd

JPD Blundell	NA Burnett	RJ Collins	SK Dendy
DK Edwards	M Jones	B Sedgbeer	JH Tildesley MBE
LM Walters	A Williams	AJ Williams	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie a/ac JC Radcliffe

Swyddogion:

Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rachel Keepins	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu

Gwahoddedigion:

Cyng PJ White	Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar
Susan Cooper	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Lauren North	Swyddog Rheoli Comisiynu a Contractau
Natalie Silcox	Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Rheoledig Plant
Pete Tyson	Rheolwr Grŵp - Contractau Comisiynu a Monitro Contractau

29. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

30. Y DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Waith i'r Dyfodol, yr eitemau a flaenoriaethwyd gan y Pwyllgor Corfforaethol Trosolwg a Chraffu, eitemau posibl i roi sylwadau arnynt a'u blaenoriaethu ac eitemau pellach i'w hystyried.

**Casgliadau**

1. Gofynnodd yr Aelodau i'r wybodaeth am addysg gael ei chynnwys yn yr adroddiad ar "Effeithiau Cyllidebol ar Garchar y Parc" a bod cynrychiolwyr o addysg ac o Garchar y Parc yn mynychu'r cyfarfod i egluro'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol.
2. Ystyriodd y Pwyllgor ffurflen y meini prawf ynghlwm wrth yr adroddiad a mynegodd bryderon ynghylch diogelu rhwng trwyddedu a chludiant ysgol yr Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dywedodd yr aelodau fod y ddeddfwriaeth gyfredol yn golygu mai mater i gwmni cludiant yr ysgol oedd hysbysu'r Cyngor am unrhyw euogfarnau troseddol oedd gan ei yrwyr ac ati ac felly nid oedd y Cyngor yn gwneud eu gwiriadau eu hunain. Gyda hyn mewn golwg,

daethpwyd i'r casgliad fod y Pwyllgor yn cyflwyno eitem ar bwnc ehangach Cludiant Ysgol, oherwydd materion cysylltiedig a oedd hefyd wedi codi mewn trafodaethau ynghylch y gyllideb ddrafft flynyddol, a bod y pryderon ynghylch gwiriadau trwyddedu a diogelu yn cael eu hymgorffori yn yr adroddiad hwn.

3. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i fwy o arbenigwyr a defnyddwyr gwasanaeth allanol gael eu hystyried fel gwahoddedigion ar bob eitem ar gyfer Craffu er mwyn cynorthwyo gyda thrafodaethau a rhoi persbectif ehangach.

### 31. AILFODELU'R PROSIECT GWASANAETHAU PRESWYL I BLANT

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn y cyfarfod blaenorol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y Swyddog Comisiynu a Rheoli Contractau a'r Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Rheoledig i Blant i'r pwyllgor i gyflwyno'r cynigion a Rheolwr y Grŵp Comisiynu i egluro'r agweddau ariannol.

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o Ailfodelu Plant, heriau gyda'r model presennol, y model "Dim Drws Anghywir" a sut y gellid ei ailgynllunio i weddu i Ben-y-bont ar Ogwr. Darparwyd cymhariaeth o rifau lleoliadau gan gynnwys nifer y llefydd arfaethedig a fyddai'n bodoli o fewn y gwasanaeth. Fe wnaethant esbonio pum elfen y model gan gynnwys yr Hwb, yr uned 4 gwely dros dymor canolig, gofalywr trosiannol, byw â chymorth a llety â chymorth. Darparwyd enghreifftiau o sut y byddai unigolion yn symud drwy'r model gwasanaeth presennol a sut y byddai'r cynigion newydd yn newid eu taith.

Amlinellodd Rheolwr y Grŵp Comisiynu y lefelau meddiannaeth drwy gydol 2017, hyd cyfartalog lleoliad, adborth yn dilyn ymweliadau rota a gynhaliwyd gan aelodau etholedig a data am rai sy'n gadael gofal a oedd yn dangos yr angen i sicrhau'r niferoedd mwyaf o opsiynau llety sefydlog a chynaliadwy i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Eglurodd hanes lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir a bod y rhagolygon presennol yn amcangyfrif y byddai angen tua 4 lleoliad y tu allan i'r sir o hyd ar gyfer amgylchiadau risg a phersonol. Roedd hyn yn awgrymu y gallai nifer aros yn y sir pe bai model gwasanaeth mwy effeithiol yn bodoli.

Roedd y Rheolwyr Preswyl yn arsylwi yn y cyfarfod ac wedi cynnal ymarferiad cynllunio llawn ymysg y gweithlu i fod yn sail i ofynion staffio ar gyfer y ddwy uned breswyl o dan y model arfaethedig. Cyfeiriodd y Rheolwr Grŵp - Consortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C) a'r systemau a'r prosesau yr oeddent yn eu gweithredu y gellid eu strwythuro i gefnogi anghenion Pen-y-bont ar Ogwr, y rhaglen hyfforddi a'r goblygiadau ariannol.

Gofynnodd un aelod am gadarnhad fod yr undebau llafur wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch newidiadau i ddisgrifiadau swydd ac a oedd staff yn cefnogi'r newidiadau. Dywedwyd wrtho fod undebau llafur wedi eu cynnwys a bod y staff yn hapus gyda'r newidiadau arfaethedig.

Nododd un aelod bryderon am gostau staffio, JNC a thâl i seicolegwyr. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles na fyddai'r cynigion newydd yn bosibl heb y gweithlu a'r undebau llafur a oedd yn cael eu cynnwys yn llawn. Nid oedd manylion y strwythur newydd ar gael eto. Roedd recriwtio bob amser yn broblem ond byddai pob sefyllfa yn cael ei chyflwyno fel cyfle cyffrous.

Cydnabu un aelod y swm sylweddol o waith a wnaed i ffurfio'r cynigion ond gofynnodd pam fod plant yn cael eu cymryd i ofal. Roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn y chwarterl uchaf yng Nghymru ac roedd angen adroddiad penodol i egluro'r rhesymau a'r senarios ac i atal yr angen i blant gael eu cymryd i ofal. Roedd angen i'r awdurdod weithio'n gorfforaethol ac edrych "y tu allan i'r boc" a dechrau cynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod llawer o awdurdodau yn gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Nid oedd y ffigurau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu er eu bod yn parhau i fod yn uchel. Roedd yn hanfodol darparu cymorth mor fuan â phosibl. Yn ddiweddar, bu arolygiad AGGCC lle nodwyd meysydd cadarnhaol a meysydd i'w datblygu. Byddai'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn fuan. Nodwyd problemau gydag ymyrraeth a'r math cywir o wasanaeth a'r gallu i weithredu'n gyflym pan oedd plant mewn gofal. Bu newid diwylliant o ran gweithwyr cymdeithasol a'u gallu i weithio mewn perygl. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei gyflwyno i bwyllgor craffu ym mis Ebrill o dan y testun, Cymorth Cynnar ac Ymyrraeth.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod ychydig dros 400 o blant yn derbyn gofal yn 2008 a deng mlynedd yn ddiweddarach y ffigur oedd 387. Roedd yn dueddol o amrywio o ddim ond 1 neu 2. Roedd ymyrraeth gynnar yn y maes hwn yn gymhleth iawn oherwydd plant ag anghenion cymhleth, a chroesawodd ddadl agored.

Nododd un aelod bryderon ynghylch nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir a'r arbedion a nodwyd yn yr adroddiad. Ni wnaed lwfansau ar gyfer lleoliadau llys yn nodi lleoliad lle nad oedd unrhyw gapasiti a chost lletya'r plant hyn. Hysbyswyd yr aelod bod yna welyau argyfwng ar gyfer yr amgylchiadau hyn. Roedd y model newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewisiadau ar gyfer gwahanol leoliadau. Roedd hi'n amhosib pennu beth oedd yn digwydd yn y llys, ond byddai'r model arfaethedig yn cael ei gyflwyno i'r beirniaid fel y byddent yn ymwybodol o'r hyn oedd ar gael.

Diolchodd un o'r aelodau i'r swyddogion am yr astudiaethau achos a oedd yn rhoi eglurhad clir o'r problemau yr oedd staff yn eu hwynebu.

Cydnabu un o'r aelodau fod yna nifer o achosion gydag anghenion cymhleth a gofynnodd a oedd costau wedi eu cynnwys i gyfrif am y ffaith y byddai rhai methiannau ac y byddai rhai ymyriadau yn parhau hyd nes byddai'r plant yn oedolion. Eglurodd y Rheolwr Grŵp - Comisiynu na fyddai unrhyw effaith andwyol ar nifer y gwelyau dim ond mwy o opsiynau. Ar gyfartaledd roedd 10 lleoliad costus y tu allan i'r sir a gwnaed darpariaeth ar gyfer y ffaith y gallai fod angen i rai aros y tu allan i'r sir.

Nododd un aelod bryderon ynghylch gostwng oed y plant yn Nhŷ Trecelyn, plant nad oeddent yn gallu mynd i ofal amgen oherwydd eu hoedran oedd yn golygu nad oedd capasiti ar gyfer unrhyw blant eraill sy'n dod i mewn i'r system gydag anghenion cymharol.

Eglurodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Rheoledig Plant mai'r rheswm dros leihau'r oedran oedd fel y gellid cynnal asesiadau yn yr un uned. Y gobaith oedd y gellid trosglwyddo niferoedd sylweddol yn ôl adref. Roedd y pwysau hyn yr un fath ar draws Cymru. Roedd AGGCC yn cynnal archwiliad thema ar draws Cymru a gobeithid y byddai'r wybodaeth a fyddai'n ymddangos yn rhoi'r awdurdod mewn sefyllfa gryfach. Roedd yna niferoedd uchel ond roedd y gwir gostau yn gostwng oherwydd y strategaeth o gadw plant yn lleol.

Gofynnodd un o'r aelodau a fyddai'r dewis o fod y tu allan i'r sir yn dal i fodoli pe bai'r holl welyau yn llawn. Hysbyswyd yr aelod y byddai'r gwasanaeth yn chwilio am y lleoliad cywir i'r plentyn ble bynnag y byddai hwnnw.

Gofynnodd aelod arall os byddai angen lleoliadau y tu allan i'r sir o hyd, yna onid oedd amcangyfrif o sero yn optimistaidd. Dywedwyd wrtho fod gwahaniaeth o ran cost ar gyfer pedwar unigolyn wedi'i gynnwys ond nid i bawb a byddai opsiynau eraill ar gael hefyd.

Cyfeiriodd un aelod at arbedion o £17,000 ar gyfer gwasanaethau therapiwtig ar adeg pan oedd academyddion yn awgrymu bod angen newid diwylliant llwyr gyda buddsoddiad sylweddol. Hysbyswyd yr aelod bod £53,000 wedi'i neilltuo ar gyfer y rhaglen hyfforddi. Roedd symiau sylweddol yn cael eu gwario ar ymyrraeth therapiwtig felly gallai buddsoddi mewn hyfforddi staff gael ei wneud a chynilion eu cyflawni gyda hyblygrwydd yn y gyllideb pe bai angen cefnogaeth.

Gofynnodd un aelod am ragor o wybodaeth ynghylch y gofalwyr trosiannol a'r rhagdybiaeth y byddai dau allan o chwech o ofalwyr heb leoliadau ar unrhyw un adeg. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth bellach ynghylch sefyllfa cyflogaeth gofalwyr ac os oeddent yn weithwyr i GBSP (BCBC) ac wedi'u cynnwys yn y cynllun pensiwn. Eglurodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Rheoledig Plant y byddai'r gwelyau hyn ar gael ar gyfer achosion brys a seibiant. Ni fyddent yn gyflogeion ac nid oeddent yn disgwyl i hyn newid. Roeddent yn edrych ar y posibilrwydd o welliant yn y tâl cadw ond roedd gwaith yn dal i gael ei wneud a disgwylir i bapur gael ei gyflwyno ym mis Ebrill.

Ailadroddodd un o'r aelodau bryderon ynghylch capasiti a'r angen i gadw dau le'n wag i gwblhau'r cynllun. Eglurodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Rheoledig Plant na fyddent yn cael eu defnyddio ar gyfer lleoliadau trosiannol hirdymor. Byddai'r cynlluniau'n cael eu hadolygu wrth iddynt fynd ymlaen ond derbyniwyd eu bod yn delio â phobl a theuluoedd go iawn a bod yn rhaid i'r holl rannau gydgyssylltu er mwyn i hyn weithio.

Gofynnodd un aelod a oedd y 3 gofalwr a nodwyd fel rhai addas ar gyfer uwch-sgilio wedi cael gwybod am y cynlluniau. Eglurodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Rheoledig Plant na fyddai unrhyw un yn cael gwybod am hyn nes i'r cynigion gael eu cytuno. Roedd y swyddi yn agored i unrhyw ofalwr maeth wneud cais amdanynt a byddai ymgyrch bwrpasol yn cael ei lansio ar yr adeg briodol.

Gofynnodd un aelod am ragor o wybodaeth am sut roedd y sesiynau hyfforddi dwys yn effeithio ar hawliau cyflogaeth. Eglurodd y Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Rheoledig Plant, y byddai angen hyfforddiant ar bob gofalwr maeth o dan reoliadau maeth, a byddai CBSP (BCBC) yn cynnig hyfforddiant yn ogystal â'r sesiynau gorfodol. Byddai hwn ar gael i fath penodol o ofalwr maeth.

Gofynnodd un aelod am sicrwydd fod swyddogion yn gwybod faint o Blant sy'n derbyn Gofal oedd yna ar unrhyw adeg a ble roeddent yn cael eu lleoli. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ei bod yn derbyn y wybodaeth hon yn rheolaidd a phob chwe wythnos roedd cyfarfod bwrdd lle'r oedd y sefyllfa yn cael ei hystyried a'i hadolygu. Eglurodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y gallai ffonio i ofyn am a chael y wybodaeth honno unrhyw adeg.

Gofynnodd un aelod pam na chynhwyswyd tybiaethau am chwyddiant a gwariant cyfredol yn y ffigurau. Eglurodd y Rheolwr Grŵp - Comisiynu y byddai unrhyw gostau chwyddiant neu gynnydd yn cael eu talu yn gorfforaethol ac roedd wedi ceisio sicrhau cymhariaeth debyg am debyg. Gallai'r ddau ffigur gynyddu 3%. Awgrymodd un aelod y dylid cynnwys nodyn i'r perwyl hwnnw mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Cyfeiriodd aelod arall at yr argymhellion a wnaed yn y cyfarfod blaenorol a phwysleisiodd bwysigrwydd cydweithio gan gynnwys hyfforddiant cenedlaethol ac amlasiantaethol.

### **Prosiect Ailfodelu Gwasanaethau Preswyl Plant**

Cymeradwyodd yr aelodau yr adroddiad o ran ei fanylion a'i ffocws.

